O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 590 (Cy.86)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Cyffordd Llanelidan i Glawdd Poncen, Sir Ddinbych) (Cyfyngiadau Traffig Dros Dro a Gwaharddiad) 2011

Gwnaed	*1 Mawrth 2011*
Yn dod i rym	*7 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig neu gyfyngu arno ar ddarnau penodol o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt;

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 **(1)** a phob pŵer galluogi arall (**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn:

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Mawrth 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Cyffordd Llanelidan i Glawdd Poncen, Sir Ddinbych) (Cyfyngiadau Traffig Dros Dro a Gwaharddiad) 2011.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period"*) yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 06:00 o'r gloch ar 7 Mawrth 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig wedi cael eu symud ymaith yn derfynol:

ystyr "y darn o'r gefnffordd" (*"the length of the trunk road* ") yw'r darn o gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.